# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Mai 2012** |
| Amser: | **09:30 – 11:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500000_29_05_2012&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Yr Athro Vyvyan Howard, Prifysgol Ulster** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. P-04-341 Gwastraff a Llosgi

### 2.1P-04-341 Gwastraff a Llosgi – Tystiolaeth Lafar (drwy fideo-gynadledda)

Atebodd y tyst gwestiynau gan y Pwyllgor.

### 2.2P-04-341 Gwastraff a Llosgi – Trafod y dystiolaeth lafar a gyflwynwyd hyd yma

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gyflwyno adroddiad ar losgi gwastraff a gwneud cais am drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn.
Ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gofyn iddo ystyried faint o gefnogaeth sydd i'r ddeiseb hon wrth ystyried llythyr y Pwyllgor sy'n galw ar i gynlluniau llosgydd Caerdydd i gael eu galw i mewn;
Ysgrifennu at y bobl sydd wedi rhoi tystiolaeth am y pwnc i'r Pwyllgor yn gofyn am eu barn ynghylch y model a ddefnyddiwyd er mwyn bod yn sail i benderfyniadau mewn perthynas â llosgyddion.

## 3. Deisebau newydd

### 3.1P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth am gefndir Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant a gofyn a fyddai'n fodlon gweithio gyda'r Gweinidog perthnasol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatrys y problemau a ddisgrifiwyd gan y deisebwyr;
Ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros Drafnidiaeth i ofyn a fyddai hi'n fodlon gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatrys y broblem, gan anfon copi at Owen Paterson AS.

### 3.2P-04-394 Achubwch Ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i:
Ysgrifennu at y deisebwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y mater;
Ysgrifennu at Gadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda i'w gwahodd i roi eu barn am yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor mewn sesiwn dystiolaeth lafar;
Hysbysu'r prif ddeisebydd o'r camau y mae'r Pwyllgor yn eu cymryd ac ystyried rhoi gwybod am weithrediadau'r Pwyllgor yn ehangach unwaith y bydd dyddiadau'r ymgynghoriad yn hysbys.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth mewn pwerthynas â'r ddeiseb hon, a chytunodd i:
Gau'r ddeiseb;
Ysgrifennu at y deisebydd yn ailddatgan ymrwymiad y Gweinidog i ymgymryd â mesurau peirianyddol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, yn amodol ar argaeledd cyllideb.

### 4.2P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth mewn pwerthynas â'r mater hwn.
Cytunodd y Pwyllgor i geisio gwybodaeth am y canlyniadau a'r pwyntiau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar ac i ofyn a yw'r Gweinidog yn ymgysylltu â'r grŵp.

### 4.3P-04-377 Parhau i gael Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol

### 4.4P-04-392 Deiseb ar Drafnidiaeth Gymunedol

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth mewn pwerthynas â'r ddeiseb hon, a chytunodd i anfon cyhoeddiad y Gweinidog at y deisebwyr i gael eu sylwadau arno, unwaith y bydd y cyhoeddiad ar gael.

### 4.5P-04-380 Dewch yn ôl a'n Bws! Deiseb yn erbyn diddymu'r gwasanaethau bws o ddwyrain Llanbedr Pont Steffan, Cwm-ann a Phencarreg

Daeth gohebiaeth i law y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb hon, a chytunodd i:
Ysgrifennu at Arriva yn gofyn am gadarnhâd am ddyfodol y gwasanaeth presennol;
Ysgrifennu at Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gofyn am ei barn ynghylch a yw newidiadau i ddarpariaethau gwasanaeth bws yn tanseilio hawliau pobl hŷn yn y gymuned;
Ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn a oes unrhyw gynlluniau ganddo i adolygu'r sefyllfa o ran darparaiaethau'r Deddfau Trafnidiaeth sy'n gwahardd gwasanaethau a gaiff eu hariannu gan arian cyhoeddus rhag gweithredu mewn ardaloedd lle maent yn cystadlu â gwasanaethau masnachol, a gofyn iddo archwilio'r gwasanaeth Bwcabus yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

### 4.6P-04-366 Cau Canolfan Ddydd Aberystwyth

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth mewn pwerthynas â'r ddeiseb hon, a chytunodd i ddychwelyd at y pwnc ar ôl ymweliad yr Aelodau â'r cyfleusterau newydd ym mis Mehefin.

### 4.7P-04-376 Aildrefnu Addysg ym Mhowys

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth mewn perthynas â'r mater hwn, a chytunodd i ysgrifennu at y deiliad portffolio newyddd yng Nghyngor Sir Powys i'w hysbysu am y sefyllfa ac i ofyn am ei farn.

## 5. Papur i'w nodi

### 5.1P-03-301 Cydraddoldeb i'r Gymuned Drawsryweddol

### 5.2P-04-341 Gwastraff a Llosgi

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

### 6.1P-04-329 Rheoli sŵn o dyrbinau gwynt sy’n peri diflastod

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad i’w gyhoeddi, yn amodol ar wneud nifer o welliannau i’r argymhellion.

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.